Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Ffurflen Gais ar gyfer Lleoliad Profiad Gwaith

(I'w llenwi mewn Prif Lythrennau gan ddefnyddio inc du)

Fel y gallwn ddarparu lleoliad buddiol a da i chi gofynnwn i chi lenwi a dychwelyd y ffurflen hon cyn gynted â phosibl.

MANYLION PERSONOL

Enw .....

Dyddiad Geni .....

CYFEIRIAD

Cyfeiriad Cartref

.....
.....
.....

Rhif Ffôn .....

Ysgol/Coleg/Prifysgol .....

Cyfeiriad

.....
.....

Enw Cyswllt .....

Rhif Ffôn .....

A ydych wedi llenwi unrhyw ffurflen gais arall? (e.e. Gyrfa Cymru, Llwybrau Gyrfa ayyb.?) Ydw Nac ydw

Os ydych, rhowch fanylion

.....
.....

ADDYSG

Y Pynciau yr ydych yn eu hastudio ar hyn o bryd

.....
.....
.....
.....
.....

Dyddiad y Lleoliad…… Hyd……

1. Maes/meysydd diddordeb (h.y. lle hoffech gael eich lleoli. Gweler Atodiad A)
   ……
   ……
   ……
   ……

2. Eglurwch pam yr hoffech gael eich lleoli yn y maes/meysydd yr ydych wedi'u nodi uchod?

……
……
……
……
……
……
……
……
……

3. Pam rydych wedi dewis Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel eich lleoliad profiad gwaith?

……
……
……
……
……
……
……
……

4. Pa amcanion yr ydych yn gobeithio eu cyflawni o'r lleoliad hwn? (Dylai'r rhain fod yn gysylltiedig â dyheadau o ran gyrfa a dylent adlewyrchu'r sgiliau allweddol yr ydych yn dymuno eu datblygu)

……
……
……
……
……
……
……
……
……

5. Oes gennych chi unrhyw ddiddordeb(au) arbennig?

……
……
……
……
……

6. Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?
   .....

7. A oes gennych unrhyw gais arbennig y dylem gael gwybod amdano? (Os oes, nodwch y cais)

.....
.....
.....
.....

8. A yw eich ysgol/coleg/prifysgol yn darparu dyddiadur/adroddiad i chi ei lenwi tra'ch bod ar brofiad gwaith?

   YDY ☐ NAC YDY ☐

I'W LLENWI GAN YR ATHRO DOSBARTH/ YR ATHRAWES DDOSBARTH/TIWTOR Y CWRS

Amlinellwch amcanion y lleoliad profiad gwaith hwn

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

Llofnodwyd .....

Dyddiad .....

Cyswllt .....

AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG

Dyddiad derbyn .....
Dyddiad y Lleoliad .....

Yr Is-Adran berthnasol
.....

Derbyniwyd: DO ☐ NADDO ☐

Noder: Hysbysir y myfyriwr ynghylch y canlyniad a'r camau gweithredu fel y bo'n briodol

(Atodiad A)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mae Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys tair cyfarwyddiaeth a gefnogir gan Uned Gorfforaethol.

Busnes y Cynulliad

Mae Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad yn darparu cymorth seneddol arbenigol i Aelodau er mwyn sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal yn effeithiol ac effeithlon. Yn benodol, mae'n darparu'r gwasanaethau a ganlyn:

Gwasanaeth y Siambr

Mae Gwasanaeth y Siambr yn sicrhau bod y cyfarfodydd llawn yn cael eu rheoli'n effeithiol ac mae'n darparu cyngor trefniadol i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd ac Aelodau.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Mae Gwasanaeth y Pwyllgorau yn rhoi cymorth ysgrifenyddol i bwyllgorau'r Cynulliad a chyngor trefniadol i gadeiryddion y pwyllgorau ac i Aelodau.

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth sy'n llywio'r broses ddeddfu ar ei hynt drwy'r Cynulliad. Mae'r Swyddfa'n darparu gwasanaeth clercio ar gyfer pwyllgorau a sefydlwyd i graffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, Mesurau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth ac ar gyfer camau dilynol a gynhelir mewn cyfarfod llawn. Mae'r Swyddfa Ddeddfwriaeth hefyd yn cynorthwyo'r broses o ddatblygu cynigion deddfwriaethol gan Aelodau unigol.

Y Swyddfa Gyflwyno

Mae'r Swyddfa Gyflwyno yn darparu cyngor ac yn dyfarnu ar dderbynioldeb cwestiynau a chynigion; cyhoeddi'r gofrestr o fuddiannau Aelodau; rhoi cyfarwyddyd ar gofrestru a datgan buddiannau; a chynorthwyo'r Comisiynydd Safonau.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn darparu gwybodaeth a chymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i Aelodau'r Cynulliad a'r pwyllgorau. Mae'r Gwasanaeth wedi ei drefnu i bedwar tîm pwnc sy'n darparu cyngor arbenigol ar bynciau polisi penodol a thîm arall yn darparu gwasanaeth cyfeirio a gwybodaeth yn Llyfrgell yr Aelodau. Hefyd, mae gan y Gwasanaeth bresenoldeb ym Mrwsel, sy'n darparu cyngor a gwybodaeth ar faterion yr UE ac hefyd sy'n hwyluso rhaglenni ac ymweliadau ar gyfer Aelodau a staff sydd eisiau ymweld â'r sefydliad

Cofnod y Trafodion

Mae tîm Cofnod y Trafodion yn cynhyrchu a chyhoeddi trawsgrifiadau dwyieithog o'r cyfarfod llawn a chyfarfodydd pwyllgor.

Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd

Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i sicrhau bod modd i'r Cynulliad weithio'n ddwyieithog.

Y Prif Swyddog Gweithredol

Mae gan gyfarwyddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol gyfrifoldeb am:

Adnoddau Dynol

Mae'r tîm Adnoddau Dynol yn canolbwyntio ar gynorthwyo rheolwyr a staff i wneud y Cynulliad yn lle gwych i weithio. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gweithio gyda'n cwsmeriaid mewnol i ddatblygu'r arferion gorau posibl – mae gennym Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl – sy'n cynnwys recriwtio staff y Cynulliad, cynefino, dysgu a datblygu, rheoli perfformiad, ac iechyd a lles. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn a'r gwasanaeth cymorth i Aelodau er mwyn darparu cyfres o bolisïau a chanllawiau Adnoddau Dynol i Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Y Gwasanaethau Ariannol

Y tîm Gwasanaethau Ariannol sy'n gosod safonau ar gyfer rheoli ariannol a chyfrifyddu yn y Cynulliad; prosesu taliadau (yn cynnwys y gyflogres) i Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Cynulliad; cynorthwyo Comisiwn y Cynulliad i gael gwerth am arian, stiwardiaeth a chywirdeb o ran reoli ei adnoddau ariannol; a thalu anfonebau i gyflenwyr mor fuan â phosibl er mwyn hwyluso llif arian busnesau yn ystod yr amgylchiadau anodd hyn.

Llywodraethau ac Archwilio

Gwaith y tîm Llywodraethu ac Archwilio yw sicrhau bod gennym brosesau corfforaethol cadarn mewn grym i'n helpu i gyflawni amcanion strategol y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys arbenigedd mewn caffael a rheoli prosiectau gwella, dadansoddi risg ac adrodd am berfformiad, archwilio a chydraddoldeb. Mae'r tîm hefyd yn cynorthwyo Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad ac yn gweinyddu ceisiadau rhyddid gwybodaeth.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae'r tîm TGCh yn gyfrifol am reoli'r gwasanaethau TGCh a darlledu a ddarperir i Gomisiwn y Cynulliad. Mae'r tîm yn sicrhau y caiff gwasanaethau TGCh eu darparu i Aelodau, eu staff cymorth a swyddogion, a bod cyfleusterau darlledu ar gael o fewn Comisiwn y Cynulliad.

Rheoli Ystadau a Chyfleusterau
Mae'r tîm yn gyfrifol am reoli ystad Comisiwn y Cynulliad a rheoli cyfres o gontractau gyda darparwyr gwasanaeth allanol. Mae'r tîm yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau hanfodol ar gyfer adeilad y Cynulliad ac Adeilad y Lanfa i alluogi a chynorthwyo Aelodau'r Cynulliad a swyddogion i wneud eu gwaith yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau brys, adeiladau ac iechyd a diogelwch.

Diogelwch

Mae'r adran Ddiogelwch yn gyfrifol am ddelio â phob agwedd ar ddiogelwch adeiladau a diogelwch cyffredinol yn adeiladau Comisiwn y Cynulliad ym Mae Caerdydd.

Cyswllt Cyntaf y Cynulliad
Mae Tîm Cyswllt Cyntaf y Cynulliad yn darparu gwybodaeth ddiduedd i gynyddu diddordeb y cyhoedd yn y Cynulliad Cenedlaethol a'u dealltwriaeth ohono.

Y Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu'r gwasanaethau a ganlyn: Cyngor ar Orchmynion a Mesurau; Cyngor ar gymhwysedd deddfwriaethol; Craffu ar Is-ddeddfwriaeth; a Cyngor Corfforaethol.

Cyfathrebu

Y tîm Cyfathrebu sy'n gyfrifol am arwain gwaith cyfathrebu mewnol ac allanol y Cynulliad Cenedlaethol.

Y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau

Mae'r Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau yn darparu ysgrifenyddiaeth a chymorth i'r Llywyddion, Comisiwn y Cynulliad, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, y Comisiynydd Safonau, y Bwrdd Taliadau a Chymorth Busnes i'r Aelodau ac mae'n darparu gwasanaeth cyswllt i'r Aelodau a'u staff ac yn cydgysylltu cyfleoedd iddynt ddatblygu'n broffesiynol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

PREIFAT A CHYFRINACHOL

CYFLE CYFARTAL FFURFLEN FONITRO

BYDD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU YN DATGYSYLLTU'R DUDALEN HON O'CH CAIS

Deddf Diogelu Data 1998

POLISI CYFLE CYFARTAL
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal. Rydym yn awyddus i sicrhau yr ymdrinnir â phob ymgeisydd yn gyfartal beth bynnag fo eu hil, eu lliw neu eu tarddiad ethnig. At y diben hwn, mae angen i ni wybod o ba dras ethnig y daw'r rhai sy'n cyflwyno cais i ymuno â ni. Byddem felly'n ddiolchgar pe byddech yn ateb y cwestiynau canlynol. Cedwir eich ateb yn gyfrinachol ac **ni fydd yn effeithio ar eich profiad gwaith mewn unrhyw ffordd.**

Fy nghenedl (*rhowch dic yn y blwch priodol)* [ ] **Gwryw** [ ] **Benyw**

Sut y byddech yn disgrifio'ch tarddiad ethnig (ticiwch y bocs priodol)?**:**

Prydeinig [ ]

Cymreig [ ]

Gwyddelig [ ]

Unrhyw gefndir gwyn arall [ ]

Disgrifiwch _____

Gwyn a Du Caribïaidd [ ]

Gwyn a Du Affricanaidd [ ]

Gwyn ac Asiaidd [ ]

Unrhyw gefndir cymysg arall [ ]

Disgrifiwch _____

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

Indiaidd [ ]

Pacistanaidd [ ]

Bangladeshaidd [ ]

Unrhyw gefndir Asiaidd arall [ ]

Disgrifiwch _____

Du neu Ddu Prydeinig

Caribïaidd [ ]

Affricanaidd [ ]

Unrhyw gefndir Du arall [ ]

Disgrifiwch _____

Tsieineaidd neu Grwp Ethnig arall

Tseineaidd [ ]

Unrhyw grwp ethnig arall [ ]

Disgrifiwch _____

Oed: 15-16 oed [ ] 17-18 oed [ ]
19-20 oed [ ] 21a throsodd [ ]

Oes gennych anabledd? Oes [ ] Nac oes [ ]

Rhowch fanylion. _____